SgiliauAber

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

## Sut i ysgrifennu...

# Adroddiad Busnes

**Defnyddir adroddiadau'n eang ar draws disgyblaethau prifysgol amrywiol, megis y gwyddorau, busnes, ac astudiaethau proffesiynol, gan eu bod yn ffordd bwerus i gyfleu gwybodaeth yn effeithiol.**

## Strwythur eich adroddiad

**Pwysig!**

Bydd fformat a rheolau eich adroddiad yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar eich adran neu bwnc.
Gwiriwch ganllawiau eich adran neu gyfarwyddiadau aseiniad yn gyntaf.

Mae'r canlynol yn strwythur adroddiad busnes cyffredinol:

### 1.Tudalen deitl

Mae'n cynnwys teitl yr adroddiad, eich manylion, a gwybodaeth modiwl.

### 2. Crynodeb gweithredol

Y peth gorau yw ysgrifennu'r darn yma yn olaf - mae'n anoddach crynhoi darn o waith nad ydych wedi'i ysgrifennu eto.
Mae crynodeb gweithredol yn fersiwn fyrrach/crynodeb byr o'ch adroddiad cyfan, tua 10% o'i hyd.

### 3. Tudalen cynnwys

Mae gan y dudalen gynnwys restr o'r holl benodau, penawdau, ac is-benawdau gyda'r rhifau tudalen cyfatebol fel y gallwch ddod o hyd i bob adran yn hawdd yn yr adroddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at yr un system rifo ar gyfer eich penawdau er mwyn cadw pethau'n glir ac yn gyson.

### 4. Cyflwyniad

- Yn gosod y cefndir ar gyfer eich adroddiad.
- Yn datgan yn glir ddiben, nod a chefndir yr adroddiad.
- Yn diffinio termau ac yn amlinellu cwmpas a therfynau yr ymchwil.

### 5. Trafodaeth

- Dyma lle rydych chi wir yn dadansoddi'r data a gasglwyd gennych a'r canlyniadau y daethoch o hyd iddynt.
- Yma rydych chi'n dadansoddi'ch canlyniadau'n feirniadol.
- Mae angen i chi edrych yn fanwl ar ystyr eich canlyniadau o gymharu â'r nodau a'r amcanion a osodwyd gennych ar y dechrau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n trefnu'r adran hon yn rhesymegol.

### 6. Casgliad

- Yn eich casgliad, peidiwch â chyflwyno unrhyw beth newydd.
- Tynnwch eich prif bwyntiau a chanfyddiadau at ei gilydd.
- Atgoffwch y darllenydd pam mae eich adroddiad yn bwysig ac amlygwch y materion neu'r dadleuon allweddol o'ch ymchwil.
- Gallwch hefyd awgrymu syniadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol neu ffyrdd o wella'r astudiaeth gyfredol.

### 7. Argymhellion

- Gallech ychwanegu adran ar wahân am argymhellion.
- Amlinellwch y camau y credwch y dylid eu cymryd yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi'i gwblhau.
- Sicrhewch fod y camau hyn yn glir ac yn benodol.

### 8. Cyfeirnodi

- Rhestrwch holl ffynonellau y cyfeirir atynt.
- Dilynwch arddull cyfeirnodi eich Adran a chyfeiriwch yn ôl at lawlyfr eich modiwl.
- Cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Pwnc am gyngor cyfeirnodi.

### 9. Atodiadau

- Yn cynnwys tystiolaeth ategol nad yw ym mhrif gorff yr adroddiad.
- Gallai'r atodiadau gynnwys yr holl dystiolaeth sy'n ategu eich ymchwil, fel trawsgrifiadau o gyfweliadau, arolygon, holiaduron, tablau, graffiau, neu siartiau a lluniau eraill nad ydych am eu rhoi ym mhrif ran yr adroddiad ond y gallech siarad amdanynt yn eich trafodaeth neu adrannau canlyniadau.